Ysgol y Moelwyn

Adroddiad blynyddol

Y Corff Llywodraethol

2024-2025

ADRODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHOL AM Y FLWYDDYN 2024 - 2025

Cynnwys yr adroddiad.

1. Corff Llywodraethol Ysgol y Moelwyn 2024-2025
2. Rhestr Staff Ysgol y Moelwyn 2024–2025.
3. Cofnodion Y Corff Llywodraethol a chofnodion yr is-bwyllgorau.
4. Adroddiad ariannol a chyllideb 2024-2025.
5. Cynllun Datblygu Ysgol 2024-2025 – Prif Flaenoriaethau
6. Cynnydd ar gynllun gweithredu'r ysgol.
7. Polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol.
8. Trefniadau iechyd a diogelwch.
9. Polisi Iaith yr ysgol a chategori iaith.
10. Gweithdrefnau delio â chwynion.
11. Trefniadau mynediad, niferoedd disgyblion a rhif mynediad.
12. Ymddygiad.
13. Datblygu a meithrin cysylltiadau â`r gymuned.
14. Chwaraeon.
15. Gwybodaeth ymarferol.
16. Cytundeb ysgol a chartref.
17. Dyddiadau'r tymor, y diwrnod ysgol ac amser sesiynau.
18. Calendr Ysgol 2024-2025.
19. Presenoldeb 2024-2025.
20. Cyrchfannau Disgyblion
21. Targedau'r ysgol CA3 a CA4 2024-2025
22. Canlyniadau diwedd CA4 Haf 2025 a gwybodaeth gymharol, genedlaethol.

AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHOL Medi 2024

Yn cynrychioli'r Awdurdod Addysg Lleol:	**Tymor yn dod i ben:**
Cynghorydd Elfed Roberts	01.09.2025
Cynghorydd Elfed ap Elwyn	01.09.2026
Cynghorydd Linda Jones	01.09.2026
Mr. Craig Jones	01.09.2025
Yn cynrychioli'r Rhieni:	
Mrs. Sioned Hughes	01.09.2025
Mr. Keith Davies (Is-gadeirydd)	01.09.2025
Mr. Edwyn Roberts	01.09.2025
Mrs. Leah Buckley	01.09.2025
SEDD WAG	
Aelodau Cyfetholedig:	
Mrs Bini Jones	01.09.2025
Mr. Dafydd Jarrett	01.09.2025
Mrs. Tesni James	01.09.2026
SEDD WAG	
Yn cynrychioli'r staff dysgu:	
Mrs Mari Roberts	01.09.2026
Mrs Cheryl Lloyd-Owen	01.09.2025
Yn cynrychioli'r staff (heb fod yn staff dysgu)	
Mrs Morwenna Roberts	01.09.2025

Pennaeth:

Mrs Eleri Moss

Clerc i'r Llywodraethwyr:

Miss Gwerfyl Jarrett

Cadeirydd y Corff Llywodraethol:

Mrs Bini Jones

Cynhelir yr etholiadau rhieni-lywodraethwyr nesaf yn y flwyddyn 2025. Y pryd hynny, bydd yr ysgol yn cysylltu â phob rhiant i wahodd enwebiadau. Yn dilyn derbyn enwebiadau, cysylltir â phob rhiant eto gyda manylion yr etholiad.

STAFF YR YSGOL MEDI 2024

Staff Dysgu

Mrs. Eleri Moss	Pennaeth, Cyd-gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.
Mrs. Mari Roberts	Dirprwy Bennaeth, Pennaeth Cymraeg, Pennaeth lles bl. 11. Cydgysylltydd Llythrenedd.
Mrs. Elin Williams	Pennaeth Cerdd a Drama.
Miss Sharon Davies	Pennaeth Saesneg.
Miss Suzanne Roberts	Pennaeth Addysg Grefyddol.
Mrs. Rhian Williams	Pennaeth Cynydd 8 a 9, Cymraeg.
Miss Erin Owen	Pennaeth Hanes.
Mrs. Angharad Jones	Pennaeth Mathemateg.
Mrs. Ffion Williams	Mathemateg, Cyd-gysylltydd Rhifedd.
Miss. Amy Cairns	Saesneg.
Mrs. Cheryl Lloyd-Owen	Athrawes ADY, Pennaeth Cynydd 7.
Mrs. Annette Morris	Pennaeth Celf Pennaeth Cynydd Bl.10.
Miss Lisa Hughes	Pennaeth Ffrangeg.
Miss. Eluned Hughes	Cymraeg, Addysg Gorfforol.
Mr. Gareth Davies	Gwyddoniaeth (Ffiseg).
Mrs. Ceri Lane	Gwyddoniaeth (Bioleg).
Mrs Sara Edwards	Pennaeth Gwyddoniaeth (Cemeg)
Mrs. Carys Thomas	Pennaeth Bwyd a Maeth, Cyd-gysylltydd Iechyd a Lles.
Mr. Edward Roberts	Pennaeth Daearyddiaeth, Pennaeth Academaidd bl.11
Mr. Ceri Roberts	Pennaeth Addysg Gorfforol
Mr. Gwyndaf Owen	Pennaeth TGCH, Cyd-gysylltydd Digidol ac Asesu.

Staff Ategol

Mr. Daniel Bell	Pennaeth Cynhwysiad a Lles
Miss Llinos Jones	Swyddog Gweithredol ADY
Mr. Barry Evans	Swyddog Cefnogi Dysgu
Miss Marion Hughes	Uwch gymhorthydd/Arolygwraig dosbarthiadau
Mrs. Valerie Williams	Cymhorthydd dysgu
Mrs. Liza Thomas	Cymhorthydd dysgu
Mrs. Emma Jones	Cymhorthydd dysgu
Mr. Tomos Williams	Cymhorthydd dysgu
Mr Gethin Roberts	Cymhorthydd dysgu
Mr. Wil Gruffydd	Cymhorthydd dysgu
Ms. Elan Williams	Cymhorthydd dysgu
Ms. Alanna Jones	Cymhorthydd dysgu
Mrs. Maria Tanner	Cymhorthydd dysgu
Mrs. Mena Price	Swyddog Gweinyddol/Personel
Miss Gwerfyl Jarrett	Swyddog Gweinyddol/Clerc i'r Llywodraethwyr
Miss Arwen Jones	Swyddog Gweinyddol/Swyddog Arholiadau
Mrs. Sharon Jones	Swyddog Gweinyddol
Miss Michelle Payne	Derbynnydd/gweithgwraig til.
Ms. Christine McKenzie	Uwch-Dechnegydd.

Mr. Dylan Jones	Gofalwr

Staff Glanhau

Mrs. Morwenna Roberts	Glanhawraig
Ms. Wendy Evans	Glanhawraig
Ms. Gaynor Wynn Hughes	Glanhawraig
Mrs. Alison Copsey	Glanhawraig
Miss Iola Morris	Glanhawraig
Mrs. Eira Kirkman	Glanhawraig
Mrs. Tammy Whitehead	Glanhawraig

Staff Cegin

Mrs. Morwenna Ann Roberts	Cogyddes Mewn Gofal
Mrs. Alison Copsey	Cymhorthydd Cynorthwyol
Ms. Wendy Evans	Cymhorthydd Cynorthwyol
Mrs. Eira Kirkman	Cymhorthydd Cynorthwyol
Ms. Tammy Whitehead	Cymhorthydd Cynorthwyol
Mrs. Olive Jones	Goruchwyliwr amser cinio

Staff teithiol

Mr. Aled Williams	Pres.
Mr. Dylan Rowlands	Telyn/Piano.
Mr. Gareth Thomas	Gitar a Drymiau.

Cyflwyniad

Bu blwyddyn addysgol 2024-2025 yn flwyddyn brysur ac hynod gynhyrchiol yn Ysgol y Moelwyn. Drwy gydol y flwyddyn, mae staff a disgyblion wedi parhau i ddangos egni, ymrwymiad a brwdfrydedd tuag at bob agwedd o fywyd yr ysgol.

Bu ein calendr yn llawn gweithgareddau cyfoethog, gan gynnwys teithiau addysgol cofiadwy i Barcelona, Ypres, Stadiwm Pêl-droed y Ddraig Goch, Abertawe a Glan-llyn, nifer o sioeau drama megis 'The Lion, The Witch and the Wardrobe', 'Wicked' a 'War Horse', a thaith Iechyd a Lles i Fanceinion, oll yn cyfrannu at ddatblygiad personol ac academaidd ein disgyblion. Bu'r ysgol yn ffodus o gael cymryd rhan yng Nghynllun Bwyd a Hwyl dros yr haf gan annog disgyblion i fynychu gwahanol weithgareddau ar draws y gwylia, gan gynnwys gweithdai ymarfer corff, celf, gemau, taith ar y trên a thaith i stadiwm Pêl-droed Lerpwl. Profiadau gwerthfawr i'n disgyblion unwaith eto.

Mae'r ysgol yn falch o gyhoeddi bod llawer o waith cynnal a chadw yn cychwyn ar yr ysgol, gan gynnwys tri labordy Gwyddoniaeth newydd ynghyd a threfniadau eraill i uwchraddio'r ysgol. Edrychwn ymlaen i gael eich diweddaru ar yr holl ddatblygiadau.

Rydym hefyd yn falch iawn o ganlyniadau cadarnhaol blwyddyn 11 yn haf 2025, sy'n dyst i waith caled y disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Mae'r llwyddiannau hyn yn adlewyrchu cryfder yr ysgol a'r gefnogaeth barhaus gan rieni, llywodraethwyr a'r gymuned.

Diolch i bawb am eu cyfraniad i wneud hon yn flwyddyn wirioneddol lwyddiannus i Ysgol y Moelwyn.

ADRODDIAD ARIANNOL 2024-2025
Prif ddyraniad gan Gyngor Sir Gwynedd: **£2,453,223**

	Cyllideb wreiddiol	**Cyllideb bresennol**	**Gwariant**	**Balans**
Gweithwyr	2,328,390	2,359,762	2,369,020	-9,258
Adeiladau	80,894	80,894	91,105	-10,211
Ynni Ysgol	98,000	83,612	79,376	4,236
Ynni Ty'r Ysgol	1,400	1,400	2,219	-819
Ynni 7-erw	800	800	590	210
Cludiant	2000	2000	1992	8
Gwasanaethau mewnol	129,800	129,800	95,663	34,137
Gwasanaethau allanol	46,829	46,829	38,863	7,966
Canolfan Hamdden	111,114	111,114	55,790	55,324
Arian Wrth Gefn	791,501	791,501	1,385	790,116
Cyfanswm Gwariant	***3,590,728***	***3,607,712***	***2,780,324***	***827,388***
Cyfanswm Incwm	*341,045*	*341,045*	*368,988*	*27,943*
Cyfanswm Gwariant Net	***3,249,683***	***3,266,667***	***2,367,015***	***899,652***

Bu nifer o geisiadau am grantiau yn llwyddiannus gan gynnwys grantiau gan Awdurdod Addysg Gwynedd. Yn yr achosion yma, derbyniwyd symiau ariannol penodol at gynlluniau penodol. Ni hawliodd aelodau`r Corff Llywodraethol unrhyw gostau teithio na chynhaliaeth yn ystod y flwyddyn.

COFNODION Y CORFF LLYWODRAETHOL

Prif Gorff Llywodraethol: Cynhaliwyd pedwar o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. Mae`r Corff hwn yn derbyn adroddiadau, yn trafod ac yn cadarnhau penderfyniadau`r is-bwyllgorau. Hefyd, trafodwyd materion yn ymwneud â Cyllideb, gwariant balansau, costau prydau ysgol, addasiadau gwisg ysgol, llais y dysgwyr, y Ganolfan Hamdden, labordai Gwyddoniaeth, uwchraddio'r ysgol, Cae Eifion, cynllun datblygu, hyfforddiant llywodraethwyr, Ffederasiwn Llywodraethwyr, aelodaeth y Corff, arfarnu, y gyllideb, materion iechyd a ffitrwydd a chyswllt adrannol â`r llywodraethwyr. Cytunwyd ar dargedau'r ysgol. Adolygwyd a chadarnhawyd polisïau ysgol gyfan yn ystod y flwyddyn.

COFNODION IS-BWYLLGORAU`R CORFF LLYWODRAETHOL

Is-bwyllgor Cyllid. Cynhaliwyd tri cyfarfod. Y prif faterion ar yr agenda oedd llunio cyllideb ar gyfer y flwyddyn, ariannu'r cynllun datblygu a datblygu'r ysgol, trafod ceisiadau am grantiau, cae pob tywydd newydd, grant integreiddio datganiadau, monitro gwariant yn gyson, cronfeydd, monitro`r defnydd o ynni, dyledion cinio, cytundebau lefel gwasanaeth gan gynnwys arlwyo, glanhau, cynnal tiroedd, archwiliad ariannol a chadarnhau cywirdeb y llawlyfr cyllid cyfredol, gwariant Sirol a'r Ganolfan Hamdden.

Is-bwyllgor Staffio. Cynhaliwyd dau gyfarfod. Y prif faterion ar yr agenda oedd newid i'r strwythur staffio, trefniadau tymor byr a hir absenoldeb staff, penodi staff newydd a nosweithiau rhieni. Adolygwyd a chadarnhawyd nifer o bolisïau staffio a'r cynllun staffio.

Is-bwyllgor Lles a chynhwysiad. Cynhaliwyd tri cyfarfod. Y prif faterion a drafodwyd oedd materion o bolisïau, presenoldeb, Ffordd Ffestiniog, trefniadau gadael yr ysgol i apwyntiadau a cinio, llais y dysgwyr, holiadur SHRN, trefniadau mewnol yr ysgol, asesiad ymddygiad, Cynllun Datblygu, dadansoddiad holiaduron rhieni, a polisiau.

Is-bwyllgor Tir ac Adeiladau. Cynhaliwyd tri cyfarfod. Y prif faterion a drafodwyd oedd cynlluniau gwariant ar adeiladau`r ysgol, cae pob tywydd, y Ganolfan Hamdden, ffensys diogelu, Cae Eifion, ystafell ddigidol, coginio a dylunio a thechnoleg, ystafelloaedd newid, materion iechyd a diogelwch, cytundebau lefelau gwasanaeth, trefniadau cynnal a chadw, materion arlwyo, glanhau a thiroedd, adroddiadau ynni, asesiadau risg, system gwresogi'r ysgol ac adroddiad archwiliad blynyddol,

Is-bwyllgor Cwricwlwm. Cynhaliwyd tri cyfarfod. Trafodwyd nifer o faterion cwricwlaidd gan gynnwys y cynllun datblygu a chynnydd arno, adroddiadau Steve Baker, cwricwlwm CA3 a CA4, dadansoddiad o ganlyniadau arholiadau,. Cafwyd cyflwyniadau ar y drefn arsylwi, craffu llyfrau ac adroddiad gweithredu Mathemateg a Gwyddoniaeth a Cwricwlwm i Gymru a threfniadau TGAU newydd.

Blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol y Moelwyn 2024-2025

Mae'r cynllun yn cynnwys pwyntiau gweithredu ôl arolwg Estyn 2017. Wrth ystyried blaenoriaethau 2024-2025 mae`r ysgol wedi rhoi ystyriaeth i`r materion isod yn deillio o arolwg diweddaraf Estyn.

- Gwella safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4 ac yn Saesneg.
- Sicrhau bod dyletswyddau'r tîm arwain yn eu galluogi i fynd i'r afael yn llawn â gwella safonau.
- Sicrhau bod arweinwyr yn arfarnu darpariaeth, yn enwedig ymyraethau, yn sgîl eu heffaith ar gynnydd a chyflawniad dysgwyr
- Gwella ansawdd yr asesu, gan sicrhau bod athrawon yn cynnig adborth penodol a bod dysgwyr yn ymateb yn ystyrlon i'r adborth.

Addysgu a dysgu	Lles, gofal, cymorth, arweiniad	Arwain a gwella
Parhau i weithredu cynllun codi safonau a chymhelliant ym **Mathemateg** a **Gwyddoniaeth** gan roi sylw i'r ddarpariaeth a chysondeb adrannol.	Gweithredu ar argymhellion i sicrhau fod egwyddorion **TISUK** yn ran allweddol o fywyd bob dydd yr ysgol.	Sicrhau fod arweinwyr ar bob lefel yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith **tlodi** ar gyrhaeddiad.
Gwella'r **cynnydd** mewn gwersi a thros amser gan bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, y rhai a medrau cymharol wan a dysgwyr mwyaf abl a thalentog	Codi lefelau **presenoldeb** ysgol gyfan i 95% drwy ail-wreiddio a datblygu systemau a strategaethau.	Parhau i gyfoethogi **ansawdd yr arweinyddiaeth** i sicrhau atebolrwydd ar bob lefel er mwyn sicrhau bod y staff cyfan yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llwyddiannus.
Datblygu a mireinio'r ddarpariaeth, rhaglen waith ac asesu **Cwricwlwm i Gymru** ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9 gan	Gweithredu cynllun **cwricwlwm amgen** ar gyfer dysgwyr sy'n methu ymdopi gydag amserlen lawn brif lif.	Cryfhau **prosesau arfarnol** ar bob lefel mewn perthynas a'r gallu i arfarnu effaith yr addysgu ar gynnydd.

gynllunio profiadau i gyfoethogi'r dysgu.		
Cyfoethogi'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd sy'n galluogi'r dysgwyr i ddatblygu **uwchsgiliau darllen** a **llafaredd.**	Cryfhau'r cyswllt gyda mudiadau o fewn y **gymuned** i gyfoethogi profiadau a chyfoethogi cyswllt cwricwlaidd y dysgwyr sydd wedi cael eu heffeithio gan dlodi.	Strategaeth ar warchod a **chynnal iechyd a lles staff a dysgwyr.**
Cynyddu **safonau** a **chymhelliant** dysgwyr CA4, yn arbennig A*/A. Monitro a thracio gofalus a chynllunio ymyraethau pwrpasol.		

CYNNYDD AR GYNLLUN GWEITHREDU`R YSGOL

Mae blaenoriaethau`r cynllun datblygu ysgol (gweler adran flaenorol) yn rhoi manylion am y gweithredu sydd yn digwydd yn dilyn arolwg 2017 yn y meysydd isod:

1. Gwella safonau, yn benodol yng Nghyfnod Allweddol Pedwar ac yn Saesneg.
2. Sicrhau fod cyfrifoldebau'r tîm arwain yn eu galluogi i wella safonau yn llawn.
3. Sicrhau fod arweinyddion yn arfarnu darpariaeth, gan gynnwys ymyraethau, fel canlyniad i effaith ar gynnydd a chyflawniad.
4. Gwella ansawdd asesu, a sicrhau fod athrawon yn rhoi adborth penodol a bod disgyblion yn ymateb yn ystyrlon i`r adborth hwnnw.

POLISI A THREFNIADAETH ANGHENION ADDYSGOL YCHWANEGOL

Mae gan yr ysgol bolisi ffurfiol ar Anghenion Addysgol Ychwanegol (sydd ar gael yn yr ysgol). Mae'r polisi yn datgan sut mae'r ysgol yn sicrhau fod disgyblion sydd ag anghenion arbennig yn cael y gefnogaeth briodol. Ceisir crynhoi prif bwyntiau'r polisi isod.

Mae'r ysgol yn defnyddio sawl ffordd i gynorthwyo plant sydd ag anghenion arbennig:

- cadw maint dosbarthiadau'n fach.
- tynnu disgyblion allan o'u gwersi er mwyn cael cymorth penodol.
- sicrhau ail athro/athrawes mewn rhai gwersi er mwyn estyn cymorth i ddisgyblion penodol.
- darparu cefnogaeth cymhorthydd dysgu.
- darparu sesiynau hyfforddiant un i un.
- darparu sesiynau ychwanegol ar ôl ysgol.

Mae'r ysgol, o dan arweiniad y Cydgysylltydd Anghenion Ychwanegol, yn amrywio'r dulliau uchod yn ôl y gofyn.

Er nad yw'r ysgol wedi ei chlustnodi fel un sy'n darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion corfforol arbennig rydym mewn sefyllfa i gynorthwyo amryw o ddisgyblion sydd â nam ar y golwg neu'r clyw neu mewn cadair olwyn.

Mae gwaith yr ysgol i ddatblygu trefniadau wedi eu seilio ar egwyddorion ysgolion yn annog yn ganolog i`r gwaith hwn.

Mae'r ysgol yn croesawu'r cydweithrediad sydd ag asiantaethau eraill (yr Awdurdod Addysg Lleol, Swyddogion Lles, Seicolegwyr Addysg a.y.b.) er mwyn cynorthwyo'r disgyblion. Mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn estyn peth cymorth ariannol i'r ysgol er mwyn gwneud y gwaith.

TREFNIADAU IECHYD A DIOGELWCH

Mae'r isod yn cyfeirio at drefniadau arferol iechyd a diogelwch yr ysgol.

Mae trefniadau goruchwylio staff yn cynnwys cyfnod y bore o 8:40 yb ymlaen a chyfnodau diwedd dydd ger giât yr ysgol – mae hyn yn sicrhau diogelwch y disgyblion ar ddiwedd y dydd. Cyflwynwyd trefn newydd i sicrhau diogelwch disgyblion yr ysgol i beidio a chaniatáu i neb fynd adref am ginio. Mae gofyn i pob disgybl aros yn yr ysgol am eu cyfnod yn yr ysgol ond ar eithriadau prin lle bod angen i ddisgybl adael yn ystod y dydd, mae'n rhaid i riant neu ofalwr ddod i'r dderbynfa i'w nol ac i arwyddo allan. Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn ffensys diogelwch i'r ysgol sydd yn golygu bod rhaid canu'r gloch wrth y giât i gael mynediad i dir yr ysgol. Mae`r isod yn crynhoi rhai prif bwyntiau ynglŷn ag iechyd a diogelwch yn yr ysgol:

- Gofynnir i rieni hysbysu'r ysgol am unrhyw gyflwr meddygol a allai effeithio ar ddisgybl.
- Ni chaniateir ysmygu na defnyddio e-sigarét yn yr ysgol.
- Os yw disgybl yn sâl rhaid adrodd i'r Swyddfa gyda nodyn gan yr athro.
- Dylid cadw at ochr chwith y coridor wrth gerdded yn yr ysgol ac ni ddylid rhedeg.
- Dylid ymddwyn mewn ffordd ddiogel ar bob achlysur a dylid cadw at reolau arbennig mewn rhai ystafelloedd e.e. labordai, gweithdai, campfa.
- Cofnodir pob damwain mewn llyfr cofnod pwrpasol.
- Ni chaniateir i ddisgyblion ddod â ffonau symudol na 'laser pens' i`r ysgol.

Cyflwynir y trefniadau uchod i ddisgyblion yn ystod cyfnodau tiwtorial, cyfnodau Addysg Bersonol neu yn ystod gwersi penodol.

Ni chaniateir i ddisgyblion ddod ag eitemau gwerthfawr diangen i`r ysgol megis ffonau symudol, symiau mawr o arian neu offer megis radio a.y.b.. Yn ystod y gwersi Addysg Gorfforol, mae`r staff yn hollol barod i gadw arian neu eitemau eraill mewn man diogel. Rhaid i ddisgyblion fod yn gyfrifol eu hunain am eu heiddo. Os oes rhaid dod ag eiddo gwerthfawr i'r ysgol dylai'r disgybl ei adael yn y swyddfa neu ym meddiant athro er diogelwch. Disgwylir i rieni sicrhau fod enwau'r disgyblion ar eu dillad a'u heiddo.

Caiff pob disgybl gyfle i logi locer a disgwylir bod defnydd da yn cael ei wneud o'r rhain. Dylai disgyblion ofyn caniatâd cyn gadael offer neu eiddo personol yn yr ysgol dros nos (ar wahân i eiddo yn locer personol y disgybl).

CYNLLUN YSGOLION IACH

Mae gan yr ysgol bolisi bwyd a ffitrwydd. Anogir disgyblion i fwyta`n iach a dilyn bywyd iach. Mae`r ysgol yn rheoli ffreutur yr ysgol ac mae`r Corff Llywodraethol yn sicrhau fod y ffreutur yn gweithredu polisïau diogelwch bwyd ac agenda Cynllun Ysgolion Iach. Mae'r ysgol yn sicrhau bod yr holl fwyd a ddarperir yn ystod y dydd yn cydymffurfio'n llawn a Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth Cymru) drwy ymgynghoriad gyda'r Llywodraeth. Rydym yn parhau i hyrwyddo dewis bwyd iach drwy gynnig amrywiaeth o ffrwythau a llysiau ac hefyd yn gweithio i wella iechyd a lles disgyblion drwy addysg faeth a darparu dewisiadau bwyd maethlon yn y ffreutur.

POLISI IAITH

Cymraeg yw iaith naturiol yr ysgol ar y coridor ac hefyd yn y gwasanaethau boreol. Nod ieithyddol yr ysgol yw meithrin agwedd gadarnhaol at fanteision dwyieithrwydd a datblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu'r disgybl yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r eithaf.

Dysgir Cymraeg a Saesneg i'r holl ddisgyblion drwy'r ysgol a bydd pob disgybl hefyd yn dysgu Ffrangeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 9 (gall disgyblion ddewis astudio Ffrangeg fel pwnc arholiad wedi hynny). Dysgir Saesneg i bob disgybl a Chymraeg fel iaith gyntaf i fwyafrif y disgyblion a bydd cyrsiau a chymorth priodol i ddysgwyr neu newydd-ddyfodiaid. Cyflwynir pob pwnc naill ai yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Bydd pob adran yn penderfynu'n unigol i ba raddau mae hyn yn bosibl yn CA4.

Gellir gweld copi o'r Polisi Iaith yn yr ysgol.

TREFN GWYNO

Mae'r ysgol wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy drafodaethau gyda'r Pennaeth ac aelodau eraill o staff yr ysgol. Hwn fyddai'r cam cyntaf a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol.

Gellir trefnu apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth drwy gysylltu â'r swyddfa yn yr ysgol.

MYNEDIAD I'R YSGOL A RHIF MYNEDIAD.

Mae gan Ysgol y Moelwyn ei dalgylch naturiol sef dalgylchoedd ysgolion cynradd:

* Maenofferen, Blaenau Ffestiniog,
* Manod,
* Tanygrisiau, *
* Ysgol Edmwnd Prys, Gellilydan, *
* Ysgol Bro Cynfal, Llan Ffestiniog, *
* Ysgol Bro Hedd Wyn, Trawsfynydd.

*Ffederasiwn Bro Tan Gelli

Mae Pennaeth a staff yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd trefniadau trosglwyddo llyfn a byddwn yn gwneud pob dim posibl i sicrhau trosglwyddo effeithiol a hapus. Byddwn yn gwneud hwn trwy:

* drefnu ymweliadau gan ddisgyblion ysgolion cynradd i Ysgol y Moelwyn,
* wahodd y disgyblion a'u rhieni i Noson Agored yn yr ysgol,
* ymweld â'r cynradd i ddod i adnabod y plant ac i gyfarfod eu rhieni,
* anfon gwybodaeth i rieni.

* gwahodd disgyblion blwyddyn 6 y dalgylch am un diwrnod yr wythnos am yr hanner tymor olaf, ar ol Sulgwyn. Yn y cyfnod yma, bydd ein darpar ddisgyblion yn dilyn amserlen arferol yr ysgol.

Mae`r ysgol yn gweithredu Polisi Mynediad Awdurdod Addysg a Diwylliant Gwynedd a gellir cael mwy o wybodaeth am y polisi hwn yn llawlyfr Awdurdod Addysg Gwynedd o'r enw "Gwybodaeth i Rieni"

Rhif safonol yr ysgol ydy 4031. Ar gyfer y flwyddyn 2024/2025 gwnaed cais i 62 o ddisgyblion fynychu`r ysgol o Medi 2025 ymlaen.

YMDDYGIAD

Mae gan yr ysgol bolisi cynnal ymddygiad gadarnhaol a datganiad sydd wedi derbyn sêl bendith y Corff Llywodraethol. Caiff pob disgybl newydd gyfle, ar y cyd â`r rhieni, i arwyddo cytundeb ymddygiad.

DATBLYGU A MEITHRIN CYSYLLTIADAU Â`R GYMUNED.

Mae canran y rhieni sydd yn mynychu nosweithiau rhieni yn gyson uchel. Mae`r gymuned wedi gwneud defnydd effeithiol o adnoddau`r ysgol gan gynnwys y cyfleusterau chwaraeon. Cafwyd cefnogaeth galonogol iawn i Noson Agored ddiweddaraf. Yn ychwanegol at hyn, derbyniwyd cefnogaeth gan aelodau o`r gymuned mewn llawer cyfeiriad yn ystod y flwyddyn. Mae'r ysgol yn gwneud cyswllt rheolaidd gyda Swyddog Heddlu y gymuned i bontio a chefnogi ein disgyblion.

Mae'r ysgol yn falch o ymgysylltu yn rheolaidd gyda'r gymuned trwy wahanol weithgareddau. Mae Cinio Henoed yma unwaith y mis a hefyd Te Prynhawn unwaith y mis, ble mae unrhyw aelodau o'r gymuned yn cael gwahoddiad i'r ysgol am sgwrs a phaned poeth. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio yn agos gyda'r Dref Werdd ar y prosiect 'Balch o'n Bro'.

CHWARAEON

Mae gan yr ysgol dimau mewn amrywiaeth o chwaraeon – hoci, rygbi, pêl rwyd a phêl-droed. Bydd gemau yn cael eu cynnal yn erbyn ysgolion cyfagos a hefyd ceir cystadlaethau sirol.

Rhoddir pwyslais ar baratoi a hyfforddi disgyblion ar gyfer nifer o wahanol weithgareddau yn yr ysgol. Cynhelir sesiynau hyfforddi pêl-droed, hoci, pêl rwyd, rygbi, athletau a phêl fasged a chaiff disgyblion gyfle i chwarae gemau yn erbyn ysgolion eraill. Datblygwyd pwyslais hefyd ar weithgareddau megis rhedeg traws gwlad a gymnasteg. Mae gwahanol glybiau yn y gymuned yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau`r ysgol, yn arbennig felly y cae pob tywydd sydd wedi ei oleuo sydd yn cael ei uwchraddio gyda goleuadau a chae newydd yn y flwyddyn addysgol yma.

Gwneir defnydd cyson o`r pwll nofio a`r Ganolfan Hamdden.

GWYBODAETH YMARFEROL

Gwaith Cartref: Mae'r ysgol yn ystyried gwaith cartref yn rhan hanfodol bwysig o waith disgyblion. Mae'n bwysig fod disgyblion yn meddwl am eu gwaith cartref fel rhan hollol sylfaenol o'u gwaith ysgol. Gall gwaith cartref gymryd sawl ffurf - gwaith ysgrifenedig, dysgu, darllen, adolygu, ymchwilio a.y.b.. Bydd gofyn i ddisgyblion Blwyddyn 7 a 8 wneud o leiaf awr o waith cartref bob nos. Bydd yr amser yn codi i o leiaf dwy awr erbyn Blwyddyn 9 a bydd disgwyl i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 weithio yn rheolaidd yn ôl yr angen. Mae cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r cartref yn hollbwysig. Gofynnir i'r rhieni sicrhau fod eu plant yn cwblhau pob gwaith cartref yn drefnus a thaclus. Mae`r ysgol hefyd yn gofyn i bob rhiant fwrw golwg ar y llyfr cyswllt bob wythnos.

Tynnu lluniau o blant: O dro i dro, bydd lluniau yn cael eu tynnu o`r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda`r ysgol neu at bwrpas hyfforddi. Gall rhai o`r lluniau yma gael eu rhoi mewn papurau newydd, eu cynnwys mewn cyhoeddiadau neu ar gwefan yr ysgol. Gallent hefyd gael eu defnyddio gan Gyngor Gwynedd neu sefydliadau cyfrifol eraill y bydd yr ysgol yn cydweithio â nhw. Bydd disgyblion hefyd weithiau yn cael eu ffilmio a gall y lluniau yma gael eu darlledu`n gyhoeddus.

Bydd yr ysgol yn sicrhau fod pob defnydd o`r fath yn un cyfrifol. Mae'r ysgol yn gofyn am ganiatâd pob rhiant i dynnu a rhannu lluniau disgyblion.

Calendr yr ysgol ar gyfer y flwyddyn: Darperir copi o calendr yr ysgol ar ddechrau pob blwyddyn.

Cylchlythyr presenoldeb yr ysgol: Mae cylchlythyr presenoldeb yn manylu am drefniadau a disgwyliadau presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol.

Ffurflen casglu data: Gofynnir i rieni lenwi ffurflen data ar ddechrau pob blwyddyn a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Ffurflen iechyd a theithiau addysgol: Gofynnir i rieni gwblhau ffurflen iechyd ar gyfer eu plentyn**.** Ni fydd yr ysgol yn gofyn i rieni gwblhau ffurflenni iechyd ychwanegol yn ystod y flwyddyn am y math yma o weithgareddau.

- Teithiau addysgol sy`n cychwyn ar ddechrau`r diwrnod ysgol ac yn gorffen naill ai ar ddiwedd y diwrnod ysgol neu yn fuan ar ôl hynny. Byddwch yn cael manylion ar bapur am y gweithgareddau yma a bydd yr ysgol yn gofyn am eich caniatâd i`ch plentyn fynychu pob taith unigol.
- Teithiau maes Daearyddiaeth lleol. e.e. taith gerdded 50 munud yng nghyffiniau`r ysgol.
- Gemau cystadleuol e.e. pêl-droed ar ôl ysgol.
- Trefniadau Clwb Gwaith Cartref yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn gofyn am ffurflen iechyd newydd ar gyfer trefniadau eraill megis teithiau preswyl.

Rhwydwaith gyfrifiadurol yr ysgol a defnydd o'r rhyngwê: Mae gan yr ysgol rwydwaith gyfrifiadurol. Caiff pob disgybl enw defnyddiwr a chyfrinair personol sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio'r rhwydwaith, y rhyngwê a chadw eu gwaith mewn ffolder na all neb ond hwy ei defnyddio. Mae'r ysgol yn defnyddio rhaglen i reoli a monitro'r defnydd o'r rhwydwaith a`r rhyngwê gan bob disgybl unigol (mae`r rhaglen yn rhwystro mynediad i safleoedd anaddas ac yn tracio a chofnodi pob defnydd gan bob defnyddiwr). Caniateir i ddisgyblion ddefnyddio'r cyfrifiaduron ar we ar yr amod eu bod yn darllen ac yn cadw at y canllawiau defnyddwyr. Gofynnir i chi fel rhieni drafod y canllawiau hyn gyda'ch plentyn a chadarnhau y bydd eich plentyn yn eu cadw.

Loceri: Mae **Cyfeillion Ysgol y Moelwyn** wedi gwario swm sylweddol o arian er mwyn prynu loceri ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r loceri yma o gymorth i hwyluso pethau i`r disgyblion trwy ganiatáu iddynt gadw ffeiliau, llyfrau, dillad Addysg Gorfforol a.y.y.b. yn ddiogel o dan glo.

Bydd yr ysgol yn codi blaendâl o £6 ar gyfer pob locer. Dychwelir yr arian yma ar ddiwedd cyfnod disgybl yn yr ysgol os yw`r locer wedi ei gadw mewn cyflwr da. Fodd bynnag, bydd yr ysgol yn codi £3 am unrhyw allwedd a gollir.

Mae`r ysgol hefyd yn cadw`r hawl i archwilio`r locer os oes amheuaeth fod disgybl yn ei gamddefnyddio. Os ydych yn dymuno llogi locer, a wnewch lenwi`r atodiad a`i ddychwelyd, gyda`r arian, i`r tiwtor dosbarth.

Manylion system cashless y ffreutur a system talu ar-lein: Mae`r ysgol yn defnyddio system biometrics yn y ffreutur. Gofynnir am eich caniatâd i`ch plentyn ddefnyddio`r drefn hon.

Presenoldeb – trefniadau ymarferol: Os yw eich plentyn yn sâl a wnewch roi gwybod i`r ysgol ar **fore cyntaf yr absenoldeb** os gwelwch yn dda. Gallwch gysylltu fel hyn:

- O fewn oriau swyddfa defnyddiwch y rhif: 01766 830435.

- Y tu allan i oriau swyddfa (cyn 8:00 a.m. ac ar ôl 4:00 p.m.) defnyddiwch y llinell ffôn cofnodi absenoldebau (01766 833030).

A wnewch adael yr wybodaeth yma os gwelwch yn dda.

- Enw, a dosbarth eich plentyn.
- Dyddiad(au) yr absenoldeb.
- Eich enw a`ch perthynas chi a`r plentyn (rhiant, taid, nain a.y.b.).

Pan fydd **rhiant/gwarchodwr** yn ffonio ni fydd angen cadarnhau rheswm am absenoldeb ar bapur. Pan fydd person arall yn ffonio, gofynnir i chi fel rhiant gadarnhau`r rheswm am yr absenoldeb ar bapur.

Mae disgwyl i bob disgybl fod ar dir yr ysgol am 8:40 yn y bore. Cyflwynir tystysgrif i bob disgybl sydd wedi llwyddo i gynnal presenoldeb a phrydlondeb 100% ddiwedd mis Medi.

Mae cynnwys y cylchlythyr presenoldeb yn dangos yn glir beth yw disgwyliadau uchel yr ysgol o bresenoldeb. Cofiwch drefnu apwyntiadau deintyddol a meddygol naill ai ar ôl ysgol neu ddiwedd y prynhawn fel bod eich plentyn yn gallu mynychu mwyafrif os nad pob gwers.

Cynllun Llyfrgell yr Adran Gymraeg a`r Saesneg: Mae gan y ddwy adran gynllun darllen llyfrau Llyfrgell. Os gwelwch yn dda wnewch chi annog eich plentyn i ddarllen llyfrau llyfrgell yn gyson!

Offer: Dyma`r rhestr offer y dylai pob disgybl ddod i`r ysgol yn ddyddiol: pren mesur; beiro glas du coch a gwyrdd; pensiliau lliw; onglydd; rwbiwr a cyfrifiannell. Dim tippex.

Swyddog lles: Mae gan yr ysgol swyddog lles sy`n treulio o leiaf un diwrnod ar y safle bob wythnos. Croeso i chi gysylltu â`r ysgol i drefnu apwyntiad os oes angen.

Cwnselydd: Mae gan yr ysgol cwnselydd fydd yn gweithio hefo rhai disgyblion yn ystod y flwyddyn.

Trefniadau cinio: Gall disgyblion fwyta yn y ffreutur neu ddod â brechdanau i` r ysgol. Anogir rhieni i ddefnyddio system talu ar-lein yr ysgol am brydau cinio er mwyn osgoi`r angen i ddisgyblion ddod ag arian i`r ysgol.

Toiledau: Mae plith o gyfleusterau toiledau ar gael yn yr ysgol. Mae blociau un rhyw ar gael i fechgyn a merched, 2 doiled anabl a 2 doiled unrhyw ryw yma. Mae'r cyfleusterau yma yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan y tîm glanhau.

CYTUNDEB DISGYBL, RHIENI AC YSGOL

Fel sail i gydweithio er lles eich plentyn, gwahoddir rhieni a disgyblion ar ddechrau gyrfa ysgol i lofnodi`r cytundeb isod sydd yn nodi disgwyliadau ar gyfer y disgybl, y rhiant a'r ysgol.

CYTUNDEB CARTREF/YSGOL Y MOELWYN

ENW DISGYBL:_____ **DOSBARTH:** _____

Gwnawn ein gorau i:

- Sicrhau bod eich plentyn yn dilyn cwricwlwm addas ac yn cael ei ymestyn hyd eithaf ei allu.
- Osod gwaith cartref addas a rheolaidd.
- Annog eich plentyn i barchu ei hun ac eraill.
- Sicrhau amgylchedd saff i'ch plentyn.
- Ddysgu eich plentyn sut i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
- Roi gwybod i chi am gynnydd eich plentyn a chysylltu'n syth os oes problem gyda gwaith, ymddygiad, presenoldeb neu brydlondeb.
- Roi cyngor i'ch plentyn ynglyn â dewisiadau addysgol a phersonol.
- Ymateb yn brydlon i unrhyw fater yr hoffech ei drafod.

Arwyddwyd: _____
(Ysgol)

Ysgol y Moelwyn

Gwnaf fy ngorau i:

- Weithio'n galed yn yr ysgol a chyrraedd fy nhargedau.
- Wneud fy ngwaith cartref a gwaith cwrs yn brydlon ac hyd eithaf fy ngallu.
- Gyflwyno fy ngwaith yn daclus.
- Ddod â'r offer cywir i'r holl wersi.
- Fod yn brydlon.
- Fod yn bresennol a dal i fyny â gwaith y gallwn fod wedi ei golli.
- Fod yn onest.
- Gadw at holl reolau'r ysgol.
- Wisgo gwsig ysgol.
- Barchu fy hun ac eraill.
- Ofyn am gymorth os oes gennyf broblemau.
- Feddwl yn aeddfed am fy nyfodol, gwrando ar gyngor a gweithredu arno.

Arwyddwyd: _____
(Disgybl)

- Yr allwedd i lwyddiant -

Partneriaeth rhwng:

Y disgybl.
Y rhieni.
Yr ysgol.

Gwnaf/Gwnawn ein gorau i:

- Sicrhau bod fy/ein plentyn yn gwneud ei waith cartref mewn lle addas ac yn dal i fyny â gwaith a gollwyd.
- Sicrhau bod fy/ein plentyn yn dod i'r ysgol ac ar amser.
- Roi nodyn o eglurhad os yw fy/ein plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol.
- Ddod i'r cyfarfodydd rhieni.
- Wneud yn siwr bod fy/ein plentyn yn cael digon o gwsg.
- Wneud yn siwr bod fy/ein plentyn yn parchu rheolau'r ysgol.
- Wneud yn siwr bod gan fy/ein plentyn yr offer cywir.
- Siarad efo fy/ein plentyn am ei fywyd a'i waith yn yr ysgol.
- Ddweud wrth yr ysgol yn syth os oes unrhyw fater yn ein poeni ac am unrhyw newid gartref a all effeithio ar fy/ein plentyn.

Arwyddwyd: _____
(Rhiant/Gwarchodwr)

DYDDIADAU'R TYMOR, Y DIWRNOD YSGOL AC AMSER SESIYNAU.

Bore:	8.50 am	-	12.45 p.m.
Cinio:	12.45 p.m.	-	1.30 p.m.
Prynhawn:	1.30 p.m.	-	3.15 p.m.

Mae'r ysgol yn gweithredu yn ôl amserlen o 30 gwers yr wythnos gyda 6 gwers y dydd. Mae pob gwers yn 50 munud o hyd a nifer yr oriau addysgu'r wythnos yw 25 awr. Mae cyfnod dewisol y Clwb Gwaith Cartref dan arolygaeth yn cynyddu hyd y cyfnod hwn i 31 awr yr wythnos.

Calendar Ysgol y Moelwyn *Calendar* – 2024/25		
Tymor yr Hydref/*Autumn Term*		
Dyddiad/*Date*	**Blwyddyn/*Year***	**Gweithgaredd/*Activity***
4.9.24	Pawb/*All*	Diwrnod cyntaf Tymor yr Hydref / *First day of Autumn Term*
19.09.24	11	Ffug arholiad Mathemateg *Mathematics mock exam*
23.09.24	9	Asesiad interim Blwyddyn 9 *Year 9 interim assessment*
23.09.24	11	Ffug arholiad Mathemateg *Mathematics mock exam*
30.09.24	11	Asesiad interim Blwyddyn 11 *Year 11 interim assessment*
7.10.24	11	Noson Rieni Bl.11/*Year 11 Parent's Evening*
14.10.24	10	Asesiad interim Blwyddyn 10 Year 10 interim assessment
21.10.24	10	*Noson Rieni Bl. 10*/Year 10 Parent's Evening
25.10.24	Pawb/*All*	Hyfforddiant mewn swydd athrawon – dim Ysgol ar gyfer disgyblion/*In-service training for staff – no school for pupils*
28.10.24-01.11.24 Gwyliau hanner tymor yr Hydref/*Autumn term half term holiday*		
4-13.11.24	11	Arholiadau TGAU/*GCSE Examinations* (I'w cadarnau. *To be confirmed)*
11.11.24	5 & 6	Noson Agored/*Open Evening,* 4:30-6:30
18.11.24	9	Asesiad interim Blwyddyn 9 (2)/*Year 9 interim assessment (2)_*
20.11.24	Pawb/*All*	Ffair Nadolig/*Christmas Fair*
22.11.24-29.11.24	11	Ffug arholiadau bl 11/*Yr 11 mock examinations*
25.11.24	7	Asesiad interim bl.7/*Year 7 interim assessment*
2.12.24	7	Noson Rieni bl7/*Year 7 Parent's Evening*
4.12.24	Pawb/*All*	Noson Gwobrwyo/*Prize giving Evening*
9.12.24	8	Asesiad interim bl8 (2)/Year 8 interim assessment (2)
16-20.12.24	10	Profiad Gwaith/*Work experience*
20.12.24	Pawb/*All*	Diwrnod olaf Tymor yr Hydref / *Last day of Autumn Term*
Tymor y Gwanwyn/*Spring Term*		
6.01.25	Pawb/*All*	Diwrnod cyntaf Tymor y Gwanwyn / *First day of Spring Term*
20.01.25	9	Noson Rieni bl9/*Yr 9 Parent's evening*
20.01.25	10	Adroddiad Interim (2)/Interim assessment (2)
27.01.25	11	Adroddiad interim (2)*//Interim assessment (2)*
03.02.25	9	Adroddiad interim (2)/*Interim assessment (2)*
10.02.25	8	Noson Rieni bl8./*Yr8 Parent;s evening*
24-28.2.25 Gwyliau hanner tymor y Gwanwyn/*Spring term half term holiday*		
03.03.25	9	Dechrau cyrsiau TGAU/Beginning GCSE courses
10.03.25	7	Asesiad interim bl7 (2)/*Year 7 Interim assessment (2)*
10.03.25	10	Ffug arholiadau bl. 10/*Year 10 mock examinations*
14.03.25	Pawb/*All*	Hyfforddiant mewn swydd athrawon – dim Ysgol ar gyfer disgyblion/*In-service training for staff – no school for pupils*
17.03.25	8	Asesiad interim (ii)/*Interim assessment (2)*
24.03.25	11	Asesiad interim rieni Bl. 11 (3)/*Year 11 interim assessment (3)*

31.03.25	11	Noson Rieni Bl. 11 / *Year 11 Parent's Evening*
07.04.25	10	Noson Rieni Bl 10/*Year 10 Parent's Evening*
11.04.25	Pawb/*All*	Diwrnod olaf Tymor Gwanwyn/*Lat day of Spring Term*
Tymor yr Haf/*Summer Term*		
28.04.25	Pawb/*All*	Diwrnod cyntaf Tymor yr Haf / *First day of Summer Term*
05.05.25	Pawb/*All*	Gwyl y Banc/*Bank Holiday*
07.05.25	11	Arholiadau TGAU dechrau/*Start of GCSE examinations*
09.06.25	9	Adroddiad interim bl9 (3)/*Yr 9 Interim report (3)*
16.06.25	8	Adroddiad interim (3)/ *Interim report* (3)
23.06.25	*7*	Adroddiad interim *(3)/Interim report (3)*
25.06.25	Pawb/*All*	Hyfforddiant mewn swydd athrawon – dim Ysgol ar gyfer disgyblion/*In service training for staff – no school for pupils*
14.7.25-18.07.25	10	Profiad gwaith/*Work experience*
18.7.25	Pawb/*All*	Diwrnod olaf Tymor yr Haf / *Last day of Summer Term*

PRESENOLDEB YSGOL: Mae presenoldeb disgyblion Ysgol y Moelwyn ar y cyfan yn dda. Mae'r ysgol yn ceisio annog presenoldeb rheolaidd drwy'r drefn fugeiliol, ethos yr ysgol a monitro cyson gan aelodau o'r staff. Gwobrwyir presenoldeb da. Mae'r ysgol hefyd yn cadw cyswllt agos gyda rhieni lle mae problem gyda phresenoldeb disgybl. Gofynnir i bob rhiant ffonio ar unwaith pan fydd eu plant yn absennol.

Ffigyrau ysgol gyfan swyddogol am y flwyddyn 2024 - 2025 ydy:

Canran Absenoldebau Anawdurdodedig: **2.0%**
Canran Cyfanswm Absenoldebau: **7.2%**
Presenoldeb: Medi 2024 i ddiwedd Mai 2025 **90.8%**

Canrannau Absenoldebau Anawdurdodedig fesul Blwyddyn a Thymor 2024-2025			
	Tymor yr Hydref 2024	**Tymor y Pasg 2025**	**Tymor yr Haf 2025**
Blwyddyn 7	1.1	1.5	4.0
Blwyddyn 8	1.0	1.4	2.1
Blwyddyn 9	1.0	1.5	3.8
Blwyddyn 10	3.0	4.4	5.8
Blwyddyn 11	2.4	3.6	2.2

CYRCHFAN DISGYBLION SY'N GADAEL

Cyrchfannau 2024	**Benyw**	**Gwryw**	**Cyfanswm**	**%**
Parhau mewn addysg amser llawn - Yr un ysgol				
Parhau mewn addysg amser llawn – Ysgol	1	0	1	1.49
Parhau mewn addysg amser llawn – Coleg	28	35	63	94.03
Parhau mewn addysg amser llawn – AU				

Blwyddyn fwlch				
Parhau mewn addysg ran-amser				
Dechrau cyflogaeth tu allan i Hyfforddiant Seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc				
Dechrau Hyfforddiant Seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc (statws cyflogedig)				
Dechrau Hyfforddiant Seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc (heb statws cyflogedig)				
Yn gallu cael mynediad at Gyflogaeth, Addysg neu WBTYP (di-waith)	0	1	1	1.49
Methu NEU DDIM YN BAROD i gael mynediad at Gyflogaeth, Addysg neu WBTYP (e.e. salwch, dedfryd o gaethiwed)				
Yn hysbys iddynt adael yr ardal	1	0	1	1.49
Dim ymateb i'r arolwg, felly'n anhysbys	0	1	1	1.49
Cyfanswm y gadawyr ysgol statudol yn 2024	**30**	**37**	**67**	**100**

Ar ôl 16 oed bydd mwyafrif helaeth o ddisgyblion yr ysgol yn mynd ymlaen i goleg addysg bellach. Mae disgyblion hefyd yn dilyn y llwybrau isod:

- Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala.
- Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst.
- Coleg Meirion Dwyfor, safleoedd Dolgellau, Pwllheli a Glynllifon.
- Coleg Llandrillo Menai, safle Bangor a Llangefni.
- Cynllun prentisiaid.
- Gwaith cyflogedig.

Targedau Ysgol y Moelwyn 2025-2026

Targed presenoldeb: 95% **Targed ataliadau penodol:** Dim gwaharddiad parhaol.

Targedau penodol CA3

Mae'r ysgol bellach yn gweithredu y cwricwlwm newydd Cwricwlwm i Gymru, felly erbyn hyn does dim data na lefelau gellir wneud cymhariaeth a thargedau meintiol. Ceri tystiolaeth o safonau dysgwyr o fewn dadansoddiad adrannol CA3.

Targedau penodol CA4

Targed lleol 1 CA4: Mathemateg

- A*C. Mathemateg 60%.
- Cyfyngu gwahaniaeth terfynol rhwng sgôr disgybl a chyfartaledd disgybl ffactor pwnc yn traean 2 a thraean 3 o`r cohort i 0 (dim).

Targed lleol 2 CA4: Gwyddoniaeth

- A*C Gwyddoniaeth 68%.
- Cyfyngu gwahaniaeth terfynol rhwng sgôr disgybl a chyfartaledd disgybl ffactor pwnc yn traean 1, 2 a 3 o`r cohort i 0 (dim).

Targed lleol 3 CA4:

- Cap 9 A*- G yn 100% i PYD ac ADY.

Dull cloriannu cyflawniad targedau lleol Gweithdrefnau monitro ac arfarnu yr ysgol, barn athrawon a thîm cynhwysiad; holiaduron disgyblion, holiadur rhieni, fforwm disgyblion, teithiau dysgu, is-bwyllgorau y CLL.

CANLYNIADAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL 4 A GWYBODAETH GYMHAROL GENEDLAETHOL.

Canlyniadau TGAU 2025

Pwnc	A*	A	B	C	D	E	F	G	U	A* - C	A* - G
Cymraeg	2.9	10.3	35.3	22.1	13.2	14.7	1.5	0	0	70.6	100
Llenyddiaeth Cymraeg	4.5	10.6	25.8	22.7	10.6	4.5	10.6	10.6	0	63.6	100
Saesneg	4.3	7.2	18.8	21.7	20.3	14.5	10.1	2.9	0	52	100
Llenyddiaeth Saesneg	1.5	12.1	16.7	33.3	15.2	12.1	6.1	1.5	1.5	63.6	98.5
Mathemateg	4.3	5.8	11.6	24.6	17.4	11.6	11.6	10.1	2.9	46.3	97.1
Rhifedd	1.4	8.7	15.9	29	14.5	13	7.2	8.7	1.4	55	98.6

Gwyddoniaeth 1	4.5	16.4	7.5	23.9	14.9	6.0	17.9	9.0	0	52.2	100
Gwyddoniaeth 2	2.0	10.2	22.4	16.3	32.7	4.1	8.2	4.1	0	51	100
Celf	0	11.5	50	30.8	3.8	0	3.8	0	0	92.3	100
Daearyddiaeth	11.5	23.1	15.4	15.4	23.1	3.8	3.8	3.8	0	65.4	100
Hanes	5.7	15.1	17	17	13.2	11.3	9.4	9.4	1.9	54.8	98.1
Cerdd	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Addysg Gorfforol	0	11.8	23.5	17.6	11.8	11.8	11.8	5.9	5.9	52.9	94.1
Addysg Grefyddol	20	0	20	30	10	10	10	0	0	70	100
Ffrangeg	50	50	0	0	0	0	0	0	0	100	100
Bagloriaeth Tystysgrif Her	0	2.9	33.3	46.4	15.9	0	0	0	0	82.6	100
TGCH	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-

CANLYNIADAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL 4 A GWYBODAETH GYMHAROL GENEDLAETHOL.

Yn sgîl heriau covid, mae bwlch mewn data gwybodaeth gymharol genedlaethol. Daeth y Llywodraeth yn nol i'r trefniant yn 2023 ond yn aberthu data trothwy lefelau. Mae'r data yma bellach yn canolbwyntio ar ddata CAP9 yr ysgol, teulu, awdurdod a Chymru. Mae disgwyl i lefelau ysgol bellach fod yn cyd fynd gyda rhai 2019, sef y flwyddyn olaf cyn i addasiadau i asesiadau cael eu gwneud.

	Maes	**2018-2019**	**2019-2020**	**2020-2021**	**2021-2022**	**2022-2023**	**2023-2024**	**2024-2025**
YYM	Sgôr pwyntiau wedi capio 9	369				346	363	367.6
Teulu		378				371.4	381	376.7
Awdurdod		362				362.8	360	357.5
Cymru		354				356.5	351	353.3
YYM	Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Cymru	42				38.9	41	40.3
Teulu		40				32.4	35	31.4
Awdurdod		36				35.5	38	35.7
Cymru		36				31.6	32	28.7
YYM	Dangosydd llythrennedd	44				40	43	42.9
Teulu		43				42.7	42	42
Awdurdod		41				41.4	40	40.6
Cymru		39				39.7	39	38.6
YYM	Dangosydd rhifedd	38				32.3	37	37.1
Teulu		40				38.1	39	36.9
Awdurdod		37				37.4	36	36.2
Cymru		37				37.1	36	36
YYM	Dangosydd Gwyddoniaeth	37				31.1	35	36
Teulu		41				38.5	39	37.5

Awdurdod		38				38.7	37	37.5
Cymru		37				36.9	36	35.8
YYM	Canran 5 A*A	21%				14.3	10.6	15.9
Teulu		21%				20.2	18.6	14.6
Awdurdod		17%				22.1	17.7	17.2
Cymru		18%				20.3	17.8	18

YSGOL Y MOELWYN

Sylfaen i'r dyfodol mewn awyrgylch gartrefol